# Barod ar gyfer Prifysgol

Leigh Amor, Cynhyrchydd Cynnwys Digidol, Y Brifysgol Agored yng Nghymru

## Cefndir a chyd-destun

Mae Barod ar gyfer Prifysgol yn brosiect cydweithredol a gynlluniwyd i helpu myfyrwyr yng Nghymru â'u camau nesaf i addysg uwch (AU). Yn ystod y pandemig, nododd Llywodraeth Cymru y byddai dysgwyr yn elwa o gymorth ychwanegol â'r cyfnod pontio i AU, a gofynnwyd i brifysgolion yng Nghymru helpu â mynd i'r afael â hyn. Y canlyniad oedd casgliad o adnoddau o holl brifysgolion Cymru a gynhaliwyd trwy *OpenLearn* - platfform dysgu am ddim y Brifysgol Agored.

Sefydlwyd grŵp llywio i oruchwylio datblygiad y prosiect hwn oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol: Llywodraeth Cymru, CCAUC (Medr bellach), UCM Cymru, Prifysgolion Cymru, Gyrfaoedd Cymru, Consortia Ysgolion Addysg Ranbarthol, cynrychiolydd o Goleg AB, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, *OpenLearn* a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

## Casgliad Barod ar gyfer Prifysgol


Lansiwyd hyb [Barod ar gyfer Prifysgol]() ym mis Mai 2021, ac mae'n cynnwys adnoddau sydd am ddim i unrhyw un eu defnyddio, ac sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.




Mae'r adnoddau'n cynnwys erthyglau, fideos, deunyddiau rhyngweithiol a phodlediadau, ac maent yn mynd i'r afael â'r themâu canlynol: Y broses ymgeisio, bywyd myfyrwyr, cyngor ariannol, sgiliau astudio, astudio trwy'r Gymraeg, cymorth llesiant ac iechyd meddwl, cymorth ychwanegol, yn ogystal â deunydd ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid.

I ddechrau, defnyddiodd y prosiect adnoddau sy'n bodoli eisoes a gynhyrchwyd gan y sefydliadau AU, ond pan estynnwyd y prosiect am dair blynedd arall, symudodd y prosiect i ddull mwy rhagweithiol. Ffurfiwyd gweithgor, yn cynnwys cynrychiolydd o bob sefydliad addysg uwch yng Nghymru: Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Wrecsam, Prifysgol De Cymru, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Cynhyrchwyd cynnwys newydd yn sgil y dull cydweithredol hwn – gyda phob sefydliad AU yn rhan o nodi'r adnoddau sydd eu hangen, cynllunio, datblygu a hyrwyddo'r adnoddau hynny.

Un o’r uchafbwyntiau yw cyfres o bodlediadau dwyieithog sy'n cynnwys lleisiau a phrofiadau myfyrwyr o holl brifysgolion Cymru. Mae *Sgwrsio am Brifysgol* yn cynnig cyngor gan gymheiriaid a phrofiadau y gellir uniaethu â nhw ar gyfer unrhyw ddysgwyr sy'n ystyried mynd i brifysgol, yn ogystal ag unrhyw rwystrau neu bryderon cyffredin a allai fod ganddyn nhw. Mae pob pennod yn mynd i'r afael â rhwystr penodol:




- A yw mynd i’r brifysgol yn addas i mi?
- Sut ydw i'n mynd trwy'r broses ymgeisio?
- A fydda i'n ffitio i mewn yn y brifysgol?
- A allaf fforddio mynd i'r brifysgol?
- A allaf gymryd y naid i astudiaeth academaidd uwch?



Mae'r canllaw rhyngweithiol i rieni yn cynnig cyngor i unrhyw riant neu warcheidwad sy'n cynorthwyo person ifanc trwy'r broses ymgeisio i brifysgol a thu hwnt. Datblygwyd hyn trwy addasu ac ehangu ystod o adnoddau sy’n bodoli eisoes ar gyfer rhieni, gan gynnwys gweithdy yr oedd Prifysgol De Cymru’n ei gyflwyno i rieni a gwarcheidwaid.

Yn fwyaf diweddar, mae'r prosiect wedi cynhyrchu canllaw rhyngweithiol cam-wrth-gam sy'n tywys dysgwyr trwy'r broses ymgeisio i'r brifysgol gyda chyngor ac awgrymiadau ymarferol.

Canfu ymchwil grŵp ffocws a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect fod dysgwyr yn gwerthfawrogi arweiniad niwtral, yn enwedig ar ddechrau eu hymchwil ar gyfer mynd i’r brifysgol. O’r herwydd, nid yw'r adnoddau hyn yn hyrwyddo sefydliad penodol; fel yr holl adnoddau cydweithredol, maent yn niwtral ac yn hyrwyddo manteision profiad prifysgol yn gyffredinol.

**Effaith a'r camau nesaf**

Mae safle Barod ar gyfer Prifysgol wedi derbyn 250,000 o ymwelwyr ers ei lansio ym mis Mai 2021.

Un o ddeilliannau gwerthfawr y prosiect Barod ar gyfer Prifysgol yw bod pob prifysgol yng Nghymru’n dod at ei gilydd i gefnogi dysgwyr ac annog cyfranogiad mewn AU. Mae wedi galluogi cynhyrchu adnoddau na fyddent wedi cael eu datblygu heb y meddylfryd cydweithredol hwn a chyfuno cyllid. Mae'r holl bartneriaid yn dal i gymryd rhan weithredol yn y prosiect.

Dangosodd ymchwil grŵp ffocws a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2024 fod angen y gefnogaeth hon ar ddysgwyr ar gyfer y broses ymgeisio a'r cyfnod trosglwyddo i astudiaethau AU.

At ddibenion hyrwyddo, datblygwyd cyfres o asedau hyrwyddo i bartneriaid eu rhannu, cynhaliwyd sesiynau consortia ysgolion, yn ogystal ag ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol a Google y talwyd amdanynt.

Bydd y prosiect yn cael ei werthuso'n llawn yng Ngwanwyn 2025 gydag argymhellion yn cael eu gwneud i Medr ynghylch sut y gellid parhau â'r gwaith, ei wella a'i gysylltu â mentrau eraill.

**Prifysgolion sy'n cydweithio**

Prifysgol Aberystwyth

Prifysgol Bangor

Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Prifysgol Abertawe

Prifysgol De Cymru

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Phrifysgol Wrecsam.

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar [wefan QAA Cymru](wefan QAA Cymru).

QAA CYMRU

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research